

Astudiaeth achos: Defnydd o'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol yn 2018/19

Cyd-destun a chefnidir

Yr ysgol

Ysgol cyfrwng Saesneg yng Nghaerdydd yw ysgol gynradd Albany ac mae'n rhan o Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CCD). Mae gan yr ysgol 418 o ddysgwyr ar y gofrestr: mae 23.7 y cant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (FSM); mae gan 17.9 y cant anghenion dysgu ychwanegol (ADY); mae gan 72 y cant Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL); ac mae 15 y cant o'r rhain yn ddysgwyr byd-eang gradd A* ac A, ac fe'u hystyrir yn fwy abl a thalentog. Y rhaniad rhwng y rhywiau yn yr ysgol yw 51 y cant o fechgyn a 49 y cant o ferched.

Arweinwyr dynodedig ac aelodau o staff addysgu

Mae gan y tîm arwain saith aelod o staff. Mae 20 o athrawon yn Ysgol Gynradd Albany, a 23 o gynorthwyrwyr addysgu.

Swm y grant dysgu proffesiynol ychwanegol

Cafodd yr ysgol £7,616 yn 2018/19.

Sut y defnyddiwyd y grant ychwanegol

Ymchwil gweithredu a chydweithredu

Mae'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn cynnwys mwy o bwyslais ar ymchwil gweithredu. Er mwyn sicrhau bod gan y staff yn Ysgol Gynradd Albany y sgiliau angenrheidiol i arddangos y gofynion newydd, cysylltodd y tîm arwain â'r uned Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ym Mhrifysgol Caerdydd i ddatblygu rhaglen datblygiad proffesiynol bwrpasol i'r ysgol a oedd yn canolbwyntio ar ddysgu proffesiynol a mentora addysgol.

Er mwyn sicrhau bod staff yn cael digon o amser i ymgyfarwyddo â'r cyfrwng ddysgu yn llwyr, dyrannwyd nifer o ddiwrnodau HMS a sesiynau estynedig gyda'r hwyr i'r rhaglen.

Ar ddechrau'r rhaglen cafodd pob aelod o staff y dasg o nodi un mater heriol i fod yn ganolbwynt eu hymchwil yn y dosbarth. Gan weithio mewn grwpiau trafod bach, nodwyd materion gydag enghreifftiau fel ' addysgu codio' ac 'achos defnydd effeithiol o ddarpariaeth ym Mlwyddyn 1' yn enghreifftiau amlwg o ffrydiau gwaith yn y dyfodol.

Parhaodd y staff i gydweithio â'i gilydd a defnyddio perthynas waith yr ysgol â Phrifysgol Caerdydd i gael gafaél ar ymchwil o safon a dogfennau ategol. Hefyd, crëwyd astudiaethau achos ac fe'u rhannwyd ag arweinwyr y cwrs i gael adborth.

Defnyddiwyd pob diwrnod HMS dilynol i ddatblygu gwaith pob unigolyn ymhellach, gan newid aelodau'r grŵp trafod bob tro i annog safbwyntiau cyferbyniol ac felly gwella ansawdd y ddeialog broffesiynol a'r ymchwil yn sylweddol.

Ar ddiwedd y rhaglen creodd yr holl staff boster o'u gwaith, a ddangosodd y man cychwyn a'r man gorffen ond yn bwysicaf oll y daith a gymerwyd i gyrraedd y fan honno a'r ymchwil a ddefnyddiwyd i'w chefnogi.

Effaith y grant ar gydweithwyr ar draws yr ysgol

Datblygu sgiliau ymchwil ac astudiaeth hunangyfeiriedig.

Tynnodd staff sylw at effaith gadarnhaol sgysrsiau mentora ac ymchwil ar arfer yn yr ystafell ddosbarth. Roedd athrawon yn fwy hyderus wrth ddefnyddio ymchwil effeithiol wedi'i harwain gan y diben i effeithio ar ddysgu ac addysgu.

Isod ceir rhai enghreifftiau o'r dyfyniadau a dynnwyd o bosteri unigol:

Yn ystod y rhaglen datblygiad proffesiynol hon, rwyf wedi datblygu'n feiriadol fy nealltwriaeth o wahaniaethu mewn gwersi Mathemateg. Mae hyn wedi fy herio i fod yn ymarferydd gwell ac mae wedi fy helpu i ddatblygu fy arfer yn unol â'r safonau addysgu ac arweinyddiaeth newydd.

Gall llais y disgybl gael effaith bwysig wrth wella ymddygiad – nid yn unig drwy gynllun y systemau gwobrwyo/cosbi ond trwy gael eu gwerthfawrogi a'u clywed.

Rwyf wedi dysgu pa mor bwysig yw amser trafod myfyriol i adnabod beth sy'n/nad yw'n gweithio. Rwyf hefyd wedi canfod y gall cael gwybodaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil i gefnogi datblygiad drwy'r ysgol gyfan wneud newid yn fwy effeithiol

Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w cymhwyso ar draws yr ysgol

Cydweithio â phartneriaid allanol

Roedd gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd wedi rhoi cyfle i'r ysgol ddatblygu rhaglen bwrpasol. Rhoddodd y rhaglen gymorth a chyngor parhaus i dywys yr athrawon ar eu taith ymchwil.

Er nad oedd y gost o weithio mor agos gyda Phrifysgol Caerdydd yn gynaliadwy yn y tymor hir, bydd staff Ysgol Gynradd Albany yn defnyddio eu sgiliau newydd i barhau â'r gwaith mentora ac ymchwil drwy amser HMS penodedig yn yr ysgol. Maen nhw'n bwriadu cadw mewn cysylltiad â staff y Brifysgol yn rheolaidd er mwyn cael adborth ar effeithiolrwydd eu gwaith ymchwil yn y dyfodol.

Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w rhannu ag ysgolion eraill

Dysgodd yr ysgol y gall cydweithio effeithiol ddigwydd yn yr ysgol drwy fentora, gydag ysgolion eraill a chyda phartneriaid ehangach, yn yr achos hwn Prifysgol Caerdydd.

O ganlyniad i'w gwaith ar y rhaglen, mae Ysgol Gynradd Albany wedi rhoi llawer mwy o bwyslais ar fyfyrion a chyfleoedd ar gyfer deialog broffesiynol mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol. Mae'r dyddiadur HMS yn cynnwys nifer sylweddol o sesiynau gyda'r nos wedi'u seilio ar fyfyrion a deialog broffesiynol ynglŷn â meysydd blaenoriaeth yr ysgol.